**COFNODION**

**O GYFARFOD AGORIADOL ("CYFARFOD AGORIADOL")**

**GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR Y GYFRAITH**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**A GYNHALIWYD YN NHŶ HYWEL**

**DDYDD MAWRTH 24 EBRILL 2018 AM 12.30**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| John Griffiths AC | Llafur |
| Mark Reckless AC | Ceidwadwyr |
| Darren Millar AC | Ceidwadwyr |
| David Melding AC | Ceidwadwyr |
| Janet Finch-Saunders AC | Ceidwadwyr |
| Gareth Bennett AC | UKIP |
| Michelle Brown AC | UKIP |
| **Yn bresennol:** | |
| Craig Lawton (ar ran Suzy Davies AC) | |
| Catriona Reckless | |
| Hannah Moscorp | |

1. Cafodd yr agenda yn Atodiad A ei chyflwyno i'r Cyfarfod Agoriadol.

2. Cadarnhaodd yr Aelodau Cynulliad a oedd yn bresennol eu bod yn dymuno bod yn aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith.

3. Cadarnhaodd Mark Reckless AC fod yr Aelodau Cynulliad a nodir isod hefyd wedi dweud wrtho eu bod am fod yn aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith:

| | |
|---|---|
| Adam Price AC | Plaid Cymru |
| Simon Thomas AC | Plaid Cymru |
| Mick Antoniw AC | Llafur |
| Angela Burns AC | Ceidwadwyr |
| Suzy Davies AC | Ceidwadwyr |

4. Adroddodd Mark Reckless AC am ei gyfarfod â'r Arglwydd Thomas mewn perthynas â rôl hwnnw fel cadeirydd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, sydd wrthi yn trafod materion yn ymwneud â'r gwahaniaeth cynyddol rhwng y gyfraith yng Nghymru a'r gyfraith yn Lloegr, ynghyd â'r posibilrwydd o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân neu neilltuol i Gymru.

Dywedodd hefyd i'r Arglwydd Thomas nodi ei fod am ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad mewn modd priodol ar ôl i'r Comisiwn gwblhau ei drafodaethau cyntaf.

5. Dywedodd Catriona Reckless ei bod wedi cymryd rhan mewn cyfarfod cynharach â Matthew Richards ac Elisabeth Jones, sef cyd-benaethiaid tîm cyfreithiol y Cynulliad, gan nodi eu bod o blaid sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith a'u bod am roi cyflwyniad i'r Grŵp yn y dyfodol ar swyddogaeth gyfreithiol y Cynulliad, ei arbenigedd blaenllaw sefydledig ym maes deddfwriaeth ddatganoledig, a'i rôl yn cefnogi Aelodau'r Cynulliad yn y ffordd sydd orau iddynt hwy.

6. Cytunodd yr Aelodau Cynulliad a oedd yn bresennol y dylid pennu pwrpas y Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith fel y'i nodir yn Atodiad B, gan gytuno yn benodol ar ychwanegu'r geiriau "Bydd y Grŵp yn hyrwyddo eglurder, hygyrchedd a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru".

7. Cytunwyd y byddai cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith yn y dyfodol yn ceisio ymgysylltu ag ystod o gynrychiolwyr posibl o'r tu allan i'r Cynulliad; gall y rhain gynnwys partneriaid o gwmnïau cyfraith, cyfreithwyr sy'n gwneud gwaith *pro-bono*, cwnsel mewnol, cynrychiolwyr Cwrs Ymarfer y Gyfraith, a busnes.

8. Cytunwyd ar 12.00 bob dydd Mawrth fel amser da i gynnal cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith yn y dyfodol.

9. Enwebodd Janet Finch-Saunders AC Mark Reckless AC i gadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith. Eiliwyd y cynnig gan Gareth Bennett AC. Pasiwyd y cynnig ac etholwyd Mark Reckless AC yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith yn y Cyfarfod Agoriadol.

10. Enwebodd Janet Finch-Saunders AC Michelle Brown AC fel Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith. Eiliwyd y cynnig gan Gareth Bennett AC. Pasiwyd y cynnig ac etholwyd Michelle Brown AC yn Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith yn y Cyfarfod Agoriadol.

11. Cytunwyd yn y Cyfarfod Agoriadol mai Catriona Reckless fyddai Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith.

12. Cytunwyd ar gofnodi'r ffaith, yn unol â rheolau'r Cynulliad, i'r Grŵp gael ei sefydlu a'i swyddogion gael eu penodi.

**Atodiad A**

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith**

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Agoriadol 12.30 dydd Mawrth 24 Ebrill 2018**

**Agenda**

1. Aelodau a gofrestrwyd
2. Pwrpas y Grŵp
3. Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru
4. Tîm cyfreithiol y Cynulliad
5. Cyfarfodydd yn y dyfodol
6. Cofrestru'r Grŵp a'i swyddogion

## Atodiad B

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith

Bydd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Gyfraith yn fforwm ar gyfer trafod materion cyfreithiol sy'n berthnasol i Gymru a'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys trafod y cyfleoedd a'r heriau sy'n codi wrth i'r gwahaniaeth rhwng y gyfraith yng Nghymru a'r gyfraith yn Lloegr gynyddu, gan gynnwys y posibilrwydd o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân neu neilltuol i Gymru.

Bydd y grŵp yn ceisio cryfhau'r berthynas rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru. Bydd y gwaith cychwynnol yn cynnwys annog Aelodau'r Cynulliad, yn ogystal â chyfreithwyr, bargyfreithwyr a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol eraill yng Nghymru, i ymgysylltu â'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, ac yna ystyried goblygiadau ei Adroddiad.

Bydd y Grŵp yn hyrwyddo eglurder, hygyrchedd a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru.